bwyd Caerdydd

Gweithio gyda'n gilydd am fwyd teg

www.bwydcaerdydd.com

@tegbwydcaerdydd

Email: katie@bwydcaerdydd.com

Cardiff SUSTAINABLE FOOD cities Network Member



bwyd Caerdydd

CHARTER BWYD

Bwyd Caerdydd 10 Egwyddor Bwyd Teg

Mae'r bwyd a fwytawn yn cael effaith enfawr ar fywyd yng Nghaerdydd – ar ein hiechyd, ein cymunedau, ein busnesau ac ar yr amgylchedd.

Yn Bwyd Caerdydd credwn fod bwyd da yn fwyd teg: dylai fod yn dda i bobl, yn dda i'r lle rydym yn byw ynddo, yn dda i'n planed, yn ogystal â bod yn fforddiadwy ac yn faethlon. Drwy hyrwyddo bwyd iach, cynaliadwy a theg fel rhan o economi leol lewyrchus, gallwn wella iechyd a lles i greu dinas fwy bywiog, cysylltiedig a llewyrchus.

Ymunwch â rhwydwaith o drefnwyr sy'n ymrwymedig i weithredu i wneud Caerdydd yn ddinas fwyd gynaliadwy drwy ddangos eich ymrwymiad chi i fwyd cynaliadwy, teg. Cofrestrwch i fod yn rhan o Egwyddorion Bwyd Teg Bwyd Caerdydd.

10 Egwyddor Bwyd Teg

Iechyd a Lles i bawb

1. ***Yr hawl i ddewis:*** Dylai'r gallu i gael bwyd iach, fforddiadwy a gwybodaeth amdano i helpu pobl i wneud dewisiadau gwell o ran bwyd fod yn hawl sylfaenol i bawb yng Nghaerdydd.

2. ***Blaenoriaethu iechyd a lles:*** Dylai unrhyw un sy'n gwerthu bwyd – gweithgynhyrchwyr, manwerthwyr neu arlwywyr – sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn faethlon, gan flaenoriaethu lles y bobl y maen nhw'n eu gwasanaethu.

Economi leol lewyrchus a chaffael bwyd cynaliadwy

3. ***Buddsoddi'n lleol:*** Dylai'r cyhoedd helpu i hybu economi Cymru a helpu i greu swyddi yng Nghaerdydd drwy brynu mwy o fwyd o Gymru a chefnogi mentrau bwyd lleol.

4. ***Caffael teg:*** Dylai sefydliadau yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus gaffael a chynnig bwyd iach a chynaliadwy sy'n cadw gwerth yn yr economi leol.

Cynaliadwyedd amgylcheddol

5. ***Parchu adnoddau naturiol:*** Dylai cynhyrchu bwyd barchu a gwella ecosystemau ac adnoddau naturiol ar y tir ac yn y môr, gan gynnwys pridd, dŵr ac aer.

6. ***Bwyd sy'n dda i'r amgylchedd:*** Dylai bwyd gael ei gaffael, ei brosesu, ei ddosbarthu a'i waredu mewn ffyrdd sy'n lleihau ynni, pecynnau a gwastraff, ac yn cynyddu lefelau compostio ac ailgylchu.

Cymunedau gwydn, clos

7. ***Cymunedau cysylltiedig:*** Dylai digwyddiadau a mentrau bwyd sy'n dathlu traddodiadau bwyd poblogaeth amrywiol Caerdydd, gan ddod â chymunedau at ei gilydd, gael eu hyrwyddo ledled y ddinas.

8. ***Cymunedau gwydn:*** Dylai pob cymuned allu manteisio ar bob math o weithgareddau tyfu a choginio a thir, adeiladau ac adnoddau i'w galluogi i reoli eu bwyd yn fwy a bod yn fwy hunangynhaliol.

Tegwch yn y gadwyn fwyd

9. ***Bwyd iach y gall pawb ei fforddio:*** Dylai mynd i'r afael â thlodi bwyd - a'r anghydraddoldeb sy'n deillio ohono o ran iechyd - fod yn flaenoriaeth i gyrff yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

10. ***Amodau gwaith da a chyflog teg:*** Dylai fod gan weithwyr drwy'r gadwyn fwyd, yng Nghymru a thramor, amodau gwaith da a dylent gael cyflog teg am eu gwaith a'u cynnyrch.